



Vale School Governors' Association Cymdeithas Llywodraethwyr Ysgolion y Fro and Governor Support Unit Cylchlythyr

Gair gan y Cadeirydd

Roedd yn wych gweld cynifer ohonoch yng Nghynhadledd Llywodraethwyr y Consortiwm ddechrau mis Mehefin. Thema'r Gynhadledd oedd Lles mewn Addysg. Cafodd y cywair ei osod gan Sophie Howe, Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol, gydag araith lawn ysbrydoliaeth a nododd rôl flaengar Cymru wrth ystyried Lles ehangach y gymdeithas. Mae'r Cwricwlwm i Gymru wedi cael ei lunio gyda Lles wrth ei galon.

Siaradodd Ty Golding, sydd ar fin dychwelyd i'r Fro ar ôl ei secondiad i Lywodraeth Cymru, am y Cwricwlwm i Gymru a'r cyfleoedd cyffrous mae'n eu rhoi i ddysgwyr, a sut bydd yn eu paratoi ar gyfer eu bywydau yn y dyfodol mewn byd sy'n newid yn gyflym. Gallwch chi weld mwy o wybodaeth yn <https://hwb.gov.wales/cwricwlwm-drafft-i-gymru-2022>. Hoffwn i eich annog i ddarllen am yr athroniaeth y tu ôl i'r Cwricwlwm a'r fframweithiau sydd wedi cael eu cyhoeddi ar gyfer y chwe Maes Profiad Dysgu (MPD) – term jargonllyd newydd i chi – ac i roi eich sylwadau am y Cwricwlwm yn gyffredinol.

Mae un o'r MDA yn ymwneud ag Iechyd a Lles sy'n ymdrin ag agweddau corfforol, seicolegol, emosiynol a chymdeithasol ein bywydau. A dyfynnu o'r ddogfen:

"Mae'n cydnabod bod iechyd da a lles yn ffordd allweddol o alluogi dysgu llwyddiannus. Nid yn unig y bydd y maes profiad dysgu hwn yn cynorthwyo dysgwyr i

ddatblygu a chynnal eu hiechyd a'u lles corfforol, ond hefyd eu hiechyd meddwl a'u lles emosiynol, yn ogystal â datblygu perthnasoedd cadarnhaol mewn amrywiaeth o gyd-destunau. I alluogi hyn, bydd yn datblygu gallu dysgwyr i wneud penderfyniadau gwybodus am eu hiechyd a'u lles a hefyd i ymdrin yn feirniadol ag amrywiaeth o ddylanwadau cymdeithasol a allai effeithio ar eu gwerthoedd a'u hymddygiad."

Bu'r Gynhadledd yn ystyried rôl allweddol llywodraethwyr wrth sicrhau lles dysgwyr, staff a nhw eu hunain, yn benodol yn y cyfnod hwn o newid ym myd addysg Cymru. Lles yw'r cyflwr o fod yn gyfforddus, yn iach ac yn hapus. Cwestiynau pwysig: Sut ydych hi'n gwybod bod yr hyn rydych yn ei wneud yn gwneud gwahaniaeth? Sut mae mesur lles? A ddylech chi fod yn mesur lles?

Gobeithio y bydd cyfle i chi gael seibiant dros yr haf er eich lles eich hun a dychwelyd yn llawn egni i helpu i lywio'ch ysgol wrth iddi baratoi ar gyfer y newidiadau.

Dr Martin Price
Cadeirydd Cymdeithas
Llywodraethwyr Ysgolion y Fro
ac Is-Gadeirydd y Llywodraethwyr,
Ysgol Uwchradd Gatholig
Sant Richard Gwyn



Mae gan VSGA gyfeiriad e-bost y gallwch ei ddefnyddio er mwyn cysylltu â ni, sef VSGA@valeofglamorgan.gov.uk
Neu, gallwch gysylltu â VSGA trwy'r post:

VSGA
a'r Uned Cymorth i Lywodraethwyr
Dysgu a Sgiliau
Swyddfeydd Dinesig, Heol Holton,
Y Barri CF63 4RU

Rhifyn 46 Tymor yr Haf 2019

Pwyntiau arbennig o ddiddordeb:

- Sefydlwyd AVAGO ym 1996 ac fe'i lansiwyd o'r newydd yn 2006 fel Cymdeithas Llywodraethwyr Ysgolion y Fro (VSGA)
- Mae'r Pwyllgor Rheoli yn cynnwys 15 o lywodraethwyr etholedig, ynghyd â 2 gynrychiolydd rhieni-lywodraethwyr

Sefydlwyd VSGA i:

- Hyrwyddo arfer gorau ym maes llywodraethu mewn ysgolion yn AALI Bro Morgannwg
- Hyrwyddo gwaith mewn partneriaeth ymhlith ysgolion a rhwng ysgolion a'r AALI
- Gweithio gyda budd-ddeiliaid er mwyn sicrhau adnoddau digonol ar gyfer ysgolion yn yr AALI
- Cynrychioli safbwyntiau'r Gymdeithas ynghylch materion sy'n ymwneud gyda llywodraethu ysgolion a rheolaeth ac adnoddau ysgolion i awdurdodau a sefydliadau perthnasol

Ar y cyd gyda Chyngor Bro Morgannwg

Manylion cyswllt:

John Sparks

Pennaeth Cymorth i Lywodraethwyr
Ffôn: 01446 709106 Ffacs: 01446 701820
E-bost: JSparks@valeofglamorgan.gov.uk

Janine Hoare

Cynorthwydd Clerigol
Ffôn: 01446 709107 Fax: 01446 701820
E-bost: JHoare@valeofglamorgan.gov.uk



Datganiad i'r Wasg - Gwasanaeth Ieuenctid Noson Gyflwyno 30.04.19 Dathlu Llwyddiant

Trefnodd Gwasanaeth Ieuenctid y Fro ddigwyddiad cyflwyno ddydd Mawrth 30 Ebrill i ddathlu cyflawniadau pobl ifanc o bob rhan o Fro Morgannwg. Cyflwynwyd y tystysgrifau gan Paula Ham, Cyfarwyddwr Dysgu a Sgiliau Cyngor Bro Morgannwg.

Cyflwynwyd tystysgrifau i 18 person ifanc am gwblhau uned Lefel 1 Agored Cymru ynghylch Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (CCUHP).

Mae Project Cenhadon Hawliau'r Fro ar agor i bob person ifanc o bob rhan o Fro Morgannwg. Mae'r project yn galluogi pobl ifanc 11-25 oed i gael hyfforddiant ar Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (CCUHP) ac i ddatblygu a chynnal gweithdai i blant, pobl ifanc a gweithwyr proffesiynol ledled y sir.

Mae codi ymwybyddiaeth o CCUHP yn flaenoriaeth i Lywodraeth Cymru a Chyngor Bro Morgannwg. Gall Cenhadon Hawliau'r Fro gynnal gweithdai rhyngweithiol mewn ysgolion, sefydliadau ieuenctid ac i weithwyr proffesiynol i godi ymwybyddiaeth o CCUHP a Hawliau Plant.

Cyflwynwyd Gwobr Dug Caeredin Arian a oedd yn cynnwys alldaith penwythnos i i wyth person ifanc. Roedd angen iddynt gerdded am 3 diwrnod a gwersylla dros nos am 2 noson. Mae'r wobwr Dug Caeredin yn cynnwys 3 rhan sy'n gofyn i bobl ifanc ddysgu sgil megis offeryn cerddorol, cymryd rhan mewn gweithgarwch corfforol y tu allan i'r ysgol a gwneud gwaith gwirfoddol yn ogystal â 4eddd ran sy'n cynnwys alldaith ymarfer ac alldaith a asesir. Mae'r bobl ifanc yn cael hyfforddiant ar ddarllen mapiau, creu cardiau llwybr a chymorth cyntaf i baratoi am yr alldaith.

Yn olaf cafodd pedwar person ifanc eu cydnabod yn ffurfiol am eu holl oriau gwirfoddoli trwy'r cynlluniau Gwirfoddolwr Mileniwm a Gwobr Seren. Cydnabuwyd 350 o oriau. Da iawn i bawb!

Am fwy o wybodaeth am y Project Cenhadon Hawliau neu Wobr Dug Caeredin cysylltwch â Gwasanaeth Ieuenctid Bro Morgannwg ar **01446 709308** neu e-bostiwch valeyouthservice@valeofglamorgan.gov.uk



ADDYSG CYMRU
EDUCATION WALES
cenhadaeth ein cenedl | our national mission

Y wybodaeth ddiweddaraf am Addysg yng Nghymru: Cenhadaeth ein Cenedl

Ebrill 2019 – Rhifyn: 05

Croeso

Heddiw (30 Ebrill) rydym yn cyhoeddi drafft Cwricwlwm i Gymru 2022 ar gyfer adborth. Hwn yw'r cam nesaf yn nyluniad a datblygiad y cwricwlwm newydd.

Bydd hyn yn disodli'r cwricwlwm cenedlaethol presennol a rhoi yn ei le fframwaith cenedlaethol y dylai ysgolion a meithrinfeydd ei ddefnyddio i ddatblygu cwricwlwm lefel ysgol eu hunain.

Cyfes o ddogfennau canllaw statudol yw'r drafft Cwricwlwm i Gymru 2022 yn cynnwys:

- canllaw i Cwricwlwm i Gymru 2022
- arweiniad ar gyfer pob un o'r Meysydd Dysgu a Phrofiad
- cynigion i lywio'r gwaith o ddatblygu canllawiau statudol ar gyfer Asesu.

Ymwelwch â Hwb i weld drafft Cwricwlwm i Gymru 2022 ac i ddarparu adborth – <https://hwb.llyw.cymru/>

Am ragor o wybodaeth:

I ddarllen y datganiad i'r wasg <https://llyw.cymru/hysbysiadau/chwilio>

Mae gwybodaeth gyffredinol yn ymwneud â'r newidiad yn addysg yng Nghymru, pam mae'n newid a phryd, ar gael ar ein gwefan Mae Addysg yn Newid <https://llyw.cymru/mae-addysg-yn-newid>

A gellir gweld erthyglau yn olrhain datblygiad y cwricwlwm ar ein blog Cwricwlwm i Gymru <https://cwricwlwmigymru.llyw.cymru/>

Mae'r garreg filltir hon o bwysigrwydd cenedlaethol i Gymru ac mae angen arnom adborth wrth ystod eang o bobl; gan y gweithlu dysgu oll, gan gynnwys ymarferwyr unigol a'r gymuned ysgol ehangach; Prifysgolion a Cholegau; diwydiant; mudiadau ieuencid; a busnesau a chyflogwyr ledled y sector cyhoeddus, preifat a'r trydydd sector.

Diolch yn fawr iawn i chi am eich cyfranogiad a'ch cefnogaeth hyd yma - mae cyd-ddatblygu'r Cwricwlwm i Gymru 2022 wirioneddol wedi bod yn Genhadaeth Genedlaethol.

I'n cefnogi yn ystod y cyfnod adborth, byddem yn ddiolchgar pe gallech:

helpu i godi ymwybyddiaeth drwy rannu'r e-bost hwn â'ch rhwydweithiau a'ch sianeli cyfathrebu; rhannu gwybodaeth ar eich cyfryngau cymdeithasol gan ddefnyddio #CwricwlwmGymru #TrafodCwricwlwm;

rhoi adborth – bydd y linc i'r Cwricwlwm i Gymru 2022 drafft ar Hwb o heddiw ymlaen <https://hwb.llyw.cymru/> ac ar agor hyd at 19 Gorffennaf; a

cynnal gweithdy neu ddigwyddiad i godi ymwybyddiaeth a darparu adborth – ar gyfer cyflwyniadau, siaradwyr posibl neu unrhyw wybodaeth arall cysylltwch â CwricwlwmGymru2022@llyw.cymru

Diolch I chi am eich cefnogaeth barhaus

Steve Davies
Cyfarwyddwr Addysg, Llywodraeth Cymru

Dyddiadau Gwyliau Ysgol 2019/2020

Tymor	Dechrau	Hanner tymor		Gorffen	Nifer y Dyddiau Ysgol
		Dechrau	Gorffen		
Hydref 2019	Dydd Llun 2 Medi 2019	Dydd Llun 28 Hydref 2019	Dydd Gwener 1 Tach 2019	Dydd Gwener 20 Rhag 2019	75
Gwanwyn 2020	Dydd Llun 6 Ion 2020	Dydd Llun 17 Chwe 2020	Dydd Gwener 21 Chwe 2020	Dydd Gwener 3 Ebrill 2020	60
Haf 2020	Dydd Llun 20 Ebrill 2020	Dydd Llun 25 Mai 2020	Dydd Gwener 29 Mai 2020	*Llun 20 Gorffennaf 2020	60
				CYFANSWM	195

- i) Bydd **Dydd Llun 2 Medi 2019 a Dydd Llun 20 Gorffennaf 2020** yn cael eu dynodi yn ddiwrnodau HMS ar gyfer **pob** Ysgol a Gynhelir gan yr AALI Bydd y tridiau HMS sy'n weddill i'w cymryd yn ôl disgrisiwn pob ysgol yn unigol. *Bwriedir y caiff y dyddiau HMS hyn eu cymryd naill ai ar ddydd Llun 20 Gorffennaf neu ar adegau eraill i'w penderfynu gan ysgolion unigol, yn dilyn ymgynghori'n briodol gyda staff, h.y. ar benwythnos, yn ystod y gwyliau presennol neu ar ffurf sesiynau gyda'r hwyr.

75fed BLWYDDYN DIWRNOD VE NEWID Y DYDDIAD AR GYFER MAI DIWRNOD Y BANC

Bydd yr holl ysgolion yn cau ar **Dydd Gwener 8 Mai 2020** ar gyfer Gŵyl Banc Calan Mai. **Sylwer bod y diwrnod hwn wedi cael ei symud o'r gwreiddiol Llun 4 Mai i gyd-fynd â phen-blwydd 75 diwrnod VE.**

Dyddiadau arwyddocaol: **Nadolig**
Y Pasg

Dydd Mercher 25 Rhagfyr 2019
Dydd Gwener y Groglith 10 Ebrill 2020
Dydd Llun y Pasg 13 Ebrill 2020

Gwyliau Banc Calan Mai Dydd Gwener 8 Mai 2020
Dydd Llun 25 Mai 2020

Aelodaeth y Pwyllgor Rheoli 2018-20

Mae'r Pwyllgor Rheoli yn cynnwys llywodraethwyr etholedig ynghyd â'r ddau Gynrychiolydd Rhiant-Llywodraethwr (un yr un o'r sectorau cynradd ac uwchradd).

Rhif	Teitl	Blaenly thyren	Cyfenw	Ysgol
1	Mr	R	Bailey	Ysgol Gynradd Eglwys yng Nghymru Llanbedr y Fro
2	Mr	N	Craggs	Ysgol Gynradd Eglwys yng Nghymru Gwenfô
3	Mrs	M	Gibbs	Ysgol Gynradd Romilly
4	Mr	A	Hennessey	Ysgol Gynradd Oak Field ac Ysgol Sant Baruc
5	Mrs	S	Hodges	Ysgol Sant Baruc
6	Mrs	E	Wapner-Carter	Ysgol y Deri
7	Mrs	A	Males	Ysgol Gyfun Sant Cyres
8	Mrs	A	Malkin	Ysgol Gynradd Gladstone
9	Dr	M	Price	Ysgol Uwchradd Gatholig Richard Gwyn Sant
10	Mr	R	Smith	Ysgol Gynradd y Wig a Marcroes yr Eglwys yng Nghymru
11	Mr	D	Treharne	Ysgol Gynradd Llansannwyr yr Eglwys yng Nghymru
12	Mrs	T	Vaughan-Taylor	Ysgol Gyfun y Bont-Faen
13	Mrs	L	Warren	Ysgol Gynradd St Illtyd
14	Mrs	S	Williams	Ysgol Gynradd yr Holl Saint yr Eglwys yng Nghymru
15	Cllr Mr	M	Wilson	Ysgol Gynradd Fairfield ac Ysgol Gynradd Victoria
PGR - Prim	Mrs	J	Lynch-Wilson	Ysgol Gynradd St. Athan
PGR - Sec	Dr	C	Brown	Llantwit Major Comprehensive

Termau swyddfa Cynrychiolwyr Rhiant Lywodraethwyr (PGRs)

Sector	Enw	Ysgol	Diwedd y tymor
Gynradd	Mrs Julie Lynch-Wilson	Gynradd St Athan	11 Hydref 2020
Uwchradd	Dr Carol Brown	Llantwit Major Comp	29 Medi 2019

2019/20 Diweddariadau Diweddariad Addysg a Sesiwn Briffio am eich Dyddiadur

DYDDIAD	LLEOLIAD	AMSER
Dydd Llun 2 Rhagfyr 2019	Ystafell Gorfforaethol, Swyddfeydd Dinesig, Y Barri	6.00 - 7.30pm
Dydd Mercher 1 Gorffennaf 2020	Ystafell Gorfforaethol, Swyddfeydd Dinesig, Y Barri	6.00 - 7.30pm

Sylwer bod y sesiynau hyn bob amser wedi digwydd ar ddydd Mawrth o'r blaen, ond fe'u newidiwyd i ddydd Llun a dydd Mercher ar gyfer y flwyddyn nesaf yn dilyn adborth gan lywodraethwyr.